# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Adolygiadau Cwynion SCHTh

## Adroddiad Diweddaru cyfnod adrodd

## Ionawr – Mawrth 2025

## Chwarter 4

**Nifer yr adolygiadau a dderbyniwyd**

| | Achosion cwynion a gwblhawyd o dan Atodlen 3 | Adolygiadau a Dderbyniwyd | Adolygiadau a dderbyniwyd fel cyfran o achosion cwynion | Nifer o adolygiadau SCHTh yr ymchwiliwyd iddynt | Nifer o adolygiadau SCHTh nas ymchwiliwyd iddynt | Nifer o adolygiadau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yr ymchwiliwyd iddynt | Nifer o adolygiadau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu nas ymchwiliwyd iddynt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **HDP** | 277 | 58 | | 0 | 47 | 4 | 7 |
| **Yr un cyfnod y llynedd** | 348 | 48 | | 0 | 38 | 3 | 7 |
| **Heddlu Mwyaf Tebyg** | 370 | 59 | | 0 | 47 | 5 | 8 |

**Amseroldeb**

Cyfrifir amseroldeb ar ôl derbyn cais am adolygiad. Bydd Swyddog Achos SCHTh yn gwirio dilysrwydd yr adolygiad cyn gofyn i'r Adran Safonau Proffesiynol am y ffeil achos. Bydd gan yr Adran Safonau Proffesiynol 5 diwrnod gwaith i roi'r ffeiliau achos i SCHTh, sydd yna'n cael eu gwirio a'u hanfon i'r adolygydd Annibynnol.

Ar ôl i'r adolygydd annibynnol ddychwelydd yr adolygiad, bydd Gweithiwr Achos SCHTh yn ystyried y canfyddiadau i ddod i'w benderfyniad. Mae ansawdd adolygiadau'n cael ei sicrhau cyn eu hanfon at yr achwynydd.

Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i gwblhau adolygiad yn is na'r un cyfnod y llynedd.

| | Heddlu | Yr un cyfnod y llynedd | Cyfartaledd yr heddlu mwyaf tebyg |
|---|---|---|---|
| **Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerir i SCHTh gwblhau adolygiad** | 17 | 21 | 19 |
| **Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerir gan Sancus i gwblhau adolygiad** | 8 | / | / |
| **Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerir gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i gwblhau adolygiad** | 127 | 146 | 159 |

O'r adeg y mae SCHTh yn cyflwyno adolygiad i Sancus, yr amser cyfartalog ar gyfer dychwelyd yr adolygiad yw 8 diwrnod gwaith.

**Adolygiadau y canfuwyd eu bod yn afresymol ac anghymesur**

Yn ystod y cyfnod hwn, mae SCHTh wedi cynnal 2 adolygiad, sydd 1 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol ond yn llai na chyfartaledd yr heddlu mwyaf tebyg.

| | **Ymchwiliad** | | | **Dim ymchwiliad** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adolygiadau dilys wedi'u cwblhau | Wedi'u cynnal | % wedi'u cynnal | Adolygiadau dilys wedi'u cwblhau | Wedi'u cynnal | % wedi'u cynnal |
| **HDP** | 0 | - | Amh. | 49 | 9 | 18.4% |
| **Yr un cyfnod y llynedd** | 0 | - | Amh. | 38 | 3 | 8% |
| **Heddlu Mwyaf Tebyg** | 0 | - | Amh. | 52 | 10 | 19.2% |

**Rheswm dros gynnal adolygiadau**

1. ***Cyfeirnod cwyn:* PCC-06022025-1/CO/00601/24**
    - Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ar y sail nad oedd honiad a godwyd wedi'i drin. Ond o'r ffeil achos a ddarparwyd ac ar ôl ymgynghori â'r Adran Safonau Proffesiynol, roedd y gweithiwr achos yn medru ymdrin â'r honiad coll fel rhan o'r adolygiad.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Nid oedd angen ymateb ffurfiol gan yr Adran Safonau Proffesiynol ar gyfer yr adolygiad hwn oherwydd ni nodwyd unrhyw argymhellion/dysgu.

2. ***Cyfeirnod cwyn:* PCC-02012025-5/CO/618/24**

    - Ni chynhaliodd yr Adran Safonau Proffesiynol ymholiadau rhesymol a chymesur, gan arwain atynt yn colli'r darn ffilm a ddarparwyd gan yr achwynydd, ac o'r herwydd, ni chafodd y gŵyn ei thrin yn llawn.
    - Gofynnir yn barchus i'r Awdurdod Priodol adolygu'r recordiad a ddarparwyd gan yr achwynydd a rhoi canlyniad iddo sy'n ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

- Derbyniwyd yr argymhelliad. Adolygwyd y recordiad a ddarparwyd gan yr achwynydd ac anfonwyd llythyr pellach yn rhoi manylion am y canlyniad.

**Goruchwyliaeth**

*Yn ystod y broses adolygu, bydd y cyrff plismona lleol yn nodi anghysonderau sydd ddim yn newid y ffaith bod y canlyniad yn rhesymol a chymesur, ond lle y gellir gwella'r gwasanaeth wrth drin y gŵyn. Mae'r broses adolygu'n rhoi cyfle i gyrff plismona lleol fynd i'r afael â'r anghysonderau hynny, mewn achosion unigol, gyda'r awdurdodau priodol* IOPC-Focus-19-Reviews (18).pdf

Yn ystod y cyfnod hwn, ystyriwyd y gellid fod wedi gwella'r gwasanaeth wrth ymdrin â'r gŵyn mewn 4 adolygiad.

Themâu a nodwyd fel arolygiaeth:

- Cynghorodd y Triniwr Galwadau yr achwynydd fod ei gŵyn wedi'i chau pan nad oedd hynny'n wir (roedd y cofnod wedi'i gau ond roedd y gŵyn dal yn destun ymchwiliad). Dylid cymryd gofal wrth ddarllen cofnodion a chynghori achwynyddion.
- Amseroldeb o ran cwblhau cwynion.
- Ni ddarparwyd diweddariadau statudol 28 diwrnod.
- Nid oedd tystiolaeth TCC ar gael oherwydd yr amser yr oedd y Triniwr Cwyn cymryd i adolygu.
- Ar ôl iddo ddychwelyd o'r ysbyty, dylai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fod wedi asesu'r achwynydd cyn gynted â phosibl i bennu pa mor addas ydoedd i barhau i'w gadw.

Mae SCHTh hefyd yn gwneud cofnod o unrhyw arfer gorau a nodir wrth gynnal adolygiad. Ni nodwyd unrhyw feysydd arfer gorau yn ystod y cyfnod hwn.